GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board




# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update







*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 2: wythnos **25/01/2021**

## Cynnydd Wythnosol (18 - 25 Ionawr)

Mae tîm brechu Covid-19 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'n practisau meddygon teulu yn parhau i weithio'n ddiflino ar y rhaglen frechu fwyaf a welsom yn ystod ein hoes.

**Ar draws ein Bwrdd Iechyd rydym bellach wedi brechu cyfanswm o 48,841 o bobl.**



Hyd yma, rydym wedi brechu preswylwyr o 89 cartref gofal i oedolion hŷn, a staff o 90 cartref gofal i oedolion hŷn ardraws ein Bwrdd Iechyd. Mae cartrefi gofal i oedolion hŷn, nad ydym wedi gallu mynd iddynt eto, yn cael eu hasesu'n barhaus a byddwn yn brechu'r staff a'r preswylwyr hynny cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i ni wneud hynny.

Rydym wedi brechu dros 20,471 o bobl 80 oed a throsodd a dros 14,000 o staff rheng flaen.

Yr wythnos ddiwethaf agorodd ein pumed canolfan frechu yng Nghasnewydd.

Brechodd ein canolfan frechu yng Nghasnewydd nifer o staff gofal cartref, yn ogystal â'r rhai dros 80 oed – roeddent hyd yn oed yn chwarae cerddoriaeth berthnasol i'r garfan oedran briodol.

## Brechu Cyn-filwyr



Cafodd dau gyn-filwr o'r Awyrlu Brenhinol, Ronald Maidment a Ronald Percival, y ddau yn 93, eu brechiadau yng nghanolfan frechu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ddiweddar.

Ymunodd Mr Maidment â'r RAF yn 1945. Dywedodd, "*Roedd yn syndod braf gweld yr RAF yma yn helpu i ddarparu'r brechlyn*". Ychwanegodd ei ferch Karen, "*Roedd Dad mor falch o weld yr RAF yma ac mae wedi cael ei drefnu'n dda iawn. Mae'n ddiwrnod i'w gofio mewn hanes*".

Gwasanaethodd Ronald Percival, Cyn Rhingyll yr Awyrlu Brenhinol, ar draws y byd gyda'r RAF yn ystod ei 22 mlynedd o wasanaeth. Dywedodd, "*Mwynheais fy amser yn yr RAF yn fawr ac roedd yn wych eu gweld yma heddiw yn helpu pobl i gael brechlyn.*"

**Cyfanswm y bobl wedi'u brechu yn ardal ein Bwrdd Iechyd**
(hyd at 25/01/2021)

**48,841**

**Ffigyrau Brechu Wythnosol**
(18 - 25 Ionawr)

| | |
|---|---|
| Cartrefi Gofal i Oedolion Hŷn (staff a phreswylwyr) | 5,328 |
| Staff Iechyd Rheng Flaen | 14,000+ |
| Pobl dros 80 oed | 20,471 |
| Nifer y Canolfannau Brechu Torfol Ar Agor | 5 |
| Nifer y Meddygfeydd Meddyg Teulu sy'n darparu'r brechlyn | 72 |



## Yr Wythnos Sydd i Ddod (25 Ionawr - 1 Chwefror)

Gyda'r cynydd dda wrth frechu preswylwyr 80 oed a'n hŷn yn ystod yr wythnos hon, bydd ein cydweithwyr Meddyg Teulu yn cwblhau darparu brechiadau i'r grŵp oedran hwn. Mae hwn wedi ein galluogi ni i gyflymu darpariad y rhaglen brechu. O ganlyniad, rydym wedi gallu dechrau gwahodd y rhai sy'n dod o fewn grŵp blaenoriaeth 3; rhai dros 75 oed a throsodd.

**Yr wythnos hon mae gennym gyflenwad o 22,150 o frechlynnau.**
Rydym hefyd yn agor Canolfan Brechu yn Nhrecelyn y penwythnos hwn.

Os byddwch yn derbyn apwyntiad, gwnewch bopeth o fewn eich gallu i fynychu gan ein bod yn brechu miloedd o bobl bob wythnos.

## Diolch Brenhinol

Manteisiodd **Dug Caergrawnt, EI Uchelder Brenhinol y Tywysog William**, ar y cyfle i ddiolch i Dîm Brechu Torfol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yr wythnos hon, mewn galwad ffôn gydag Cyfarwyddwr y rhaglen, Mererid Bowley.

Cynrychiolodd Mererid Bowley, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y Tîm Brechu Torfol ar yr alwad, lle rhoddodd ddiweddariadau i'r Dug ar lwyddiant y Rhaglen Brechu Torfol. Mynegodd Mererid ei diolch i'r tîm mawr o bobl y tu ôl i'r Rhaglen Frechu Dorfol, a dywedodd wrth y Dug "*Rydym yn ffodus bod gennym dîm anhygoel o staff, ac mae'r tîm yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl i frechu cyn gynted ac mor ddiogel â phosibl.*"

Canmolodd Mererid y 300 aelod o staff sydd wedi gwirfoddoli i weithio oriau ychwanegol ar nosweithiau ac ar benwythnosau, yn ogystal â diolch i'n partneriaid Awdurdod Lleol sydd hefyd wedi defnyddio staff i helpu'r rhaglen.

Roedd EI Uchelder Brenhinol y Tywysog William yn llawn canmoliaeth i Dîm Brechu Torfol y Bwrdd Iechyd, a daeth â'r alwad i ben wrth ddiolch iddynt. Dywedodd: "*Rydych chi'n gwneud gwaith gwych, pob un ohonoch. Rwyf eisiau llongyfarch pob un ohonoch yn fawr a gwn fod hyn wedi bod yn ymdrech enfawr i bob un ohonoch, er bod y cynllunio wedi dechrau'r hydref diwethaf. Mae wedi bod yn gamp enfawr ac yn her enfawr i gyflwyno hyn mewn Pandemig pan fydd pawb yn delio â phob math o heriau. Felly, llongyfarchiadau mawr i'ch tîm am gyflawni tasg mor fawr a throsglwyddwch fy nymuniadau gorau iddynt.*"

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan:
https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i:
https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

### Ffigyrau ar gyfer yr wythnos sydd i ddod
(25 Ionawr - 1 Chwefror)

| | |
|---|---|
| **Cyflenwad brechlynnau ar gyfer yr wythnos hon** | **22,150** |



### Timau Symudol

Mae'r timau brechu symudol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sydd â chefndiroedd gofal iechyd amrywiol, gan gynnwys fferyllwyr, nyrsys iechyd meddwl, cynorthwywyr deintyddol a mwy.

Canmolodd Rheolwr Gweithredol y Tîm, Angela, ei thîm yn uchel "*Rwyf wedi fy siomi ar yr ochr orau'n llwyr gyda'r tîm hwn. Mae'r ymdrech y maent i gyd yn ei gwneud yn anhygoel, ac maent i gyd mor benderfynol o frechu cynifer o gleifion mor gyflym a diogel ag y gallant. Maent yn gwirfoddoli i weithio oriau ychwanegol ar fyr rybudd ac yn brechu staff ar ddiwedd eu sifftiau, dim ond am eu bod am helpu*".

Rydym yn parhau i ddatblygu ein proses canolfan trefnu apwyntiad a'n canolfan alw. Rydym yn cynyddu'r gallu i wella'r gwasanaeth a gynigiwn. Rydym yn ymwybodol y gall y llinellau fod yn brysur iawn ar adegau.

**Ar gyfer y newyddion a diweddariadau diweddaraf o BIPAB:**
**/BwrddIechydAneurinBevan**
**/BIPAneurinBevan**
**bipab.gig.cymru**